Fforwm Mynediad Lleol07

# FFORWM MYNEDIAD LLEOL SIR Y FFLINT

**Cofnodion- 13 Ionawr 2025**

**Parc Gwepra**

---------------------------------------------------------------------------------------------------------

**Aelodau** – Julian Pellatt (Cadeirydd), Huw Morgan, Y Cynghorydd Dave Evans, John Holiday, Shirley Fermor

**Swyddogion yn bresennol** - Tom Woodall, Derrick Charlton, Natalie Davies, Adrian Hibbert, Jon Hill, Stuart Jones

**Ymddiheuriadau** – Marjorie Thomson, Hannah Arndt (Arsylwr AHNE), Jeff Shone.

**1/ Croeso -**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i 7fed cyfarfod y Fforwm Mynediad Lleol. Cafwyd ymddiheuriadau.

**2/ Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Medi fel y cawsant eu hysgrifennu.

**a.** Materion yn Codi

Dywedodd TW wrth y Fforwm fod Sarah Hampson wedi penderfynu ymddiswyddo o'r grŵp. Dywedodd fod ymrwymiadau gwaith yn ei gwneud hi'n adnodd iddi ddod o hyd i'r amser i fynychu, ond roedd hi hefyd yn teimlo nad oedd y Fforwm yn ystyried digon ar faterion yn ymwneud â cheffylau. Roedd y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd wedi gofyn iddi ailystyried ei phenderfyniad, ond nid oedd modd ei darbwyllo i aros.

Rydym wedi cysylltu â Chymdeithas Ceffylau Prydain i argymell rhywun lleol addas a allai ystyried ymuno â'r Fforwm.

**3/ Diweddariad Rhwystrau Mynediad**

Rhoddodd TW grynodeb o gefndir yr eitem hon a chyfeiriodd aelodau at y drafodaeth flaenorol ar y mater yn 2023.

Yn ystod 2024, fe gomisiynodd CSFf astudiaeth ddichonoldeb yn edrych ar y dewisiadau i wella hygyrchedd ar Lwybr Arfordir Cymru. Gan weithio gyda Heddlu Gogledd Cymru, defnyddwyr lleol a chymunedau, mae CSFf wedi penderfynu cael

gwared ar bob rhwystr ffrâm-A, ac maent eisoes wedi cychwyn cael gwared ar y rhai rhwng doc Saltney a Chei Connah.

Fe fydd gweddill y fframiau-A yn cael eu tynnu dros y flwyddyn a bydd yr effaith yn parhau i gael ei adolygu a'i fonitro. Mae adroddiadau wedi bod yn barod am feiciau modur yn rhan Saltney.

Mae yna dal alwadau gan rai grwpiau ymgyrchu i gael gwared ar **bob** rhwystr (yn cynnwys rhwystrau gosod). Gosodwyd y rhwystrau yma yn rhan o'r rhwydwaith beicio i reoli beicwyr yn ddiogel, yn bennaf ar bwyntiau mynediad i'r briffordd. Mae Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth wrthi'n adolygu eu hangen a'u defnydd.

JP – Mae'n braf clywed trafodaeth effeithiol rhwng yr Heddlu a CSFf.

JH – Mae defnyddwyr newydd wrth eu bodd y gallan nhw bellach ddefnyddio'r llwybrau. Mae Sustrans yn annog y cyhoedd i adrodd unrhyw ddigwyddiadau i'r Heddlu er mwyn iddynt gadw cofnod.

JP – A ellir gosod hysbysiadau ar hyd y ffordd yn gofyn i ddefnyddwyr roi gwybod i'r Heddlu am unrhyw ddigwyddiadau?

TW – Mae ymchwil yn dangos y gall presenoldeb hysbysiadau leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae doc Cei Connah yn mynd i osod teledu cylch caeëdig i atal problemau.

HM – Os bydd nifer penodol o bobl yn rhoi gwybod am ddigwyddiadau, a fydd y fframiau-A yn cael eu hailosod?

TW – Os oes yna bryder am ddiogelwch, mae'n bosibl y bydd rhaid i CSFf ystyried opsiynau eraill.

DE – Gwaith da yn cael gwared ar y fframiau-A hyd yn hyn. Mae angen rhwystrau gosod am resymau diogelwch. A oes yna amserlenni i gael gwared ar weddill y fframiau-A?

TW – Ym mlwyddyn ariannol 25/26.

JP – Ymateb da gan y Cyngor, nid oes yna ddatrysiad cyffredinol mae'n ymwneud â chydbwysedd. Mae angen i bawb, yr heddlu ac ati, barhau i gymryd rhan.

**4/ Y wybodaeth ddiweddaraf am y gyllideb**

Rhoddodd TW ddiweddariad am y gwaith diweddar i gael cyllideb gytbwys yn CSFf ar gyfer 2025/26 a'i effaith ar y Tîm Mynediad.

Gofynnwyd i Wasanaeth Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol edrych ar yr opsiynau i gyfrannu tuag at leihau'r bwlch cyffredinol a ragwelir yn y gyllideb. Fe edrychwyd ar

staffio a swyddi gwag, ffioedd, taliadau ac incwm, gostyngiad mewn cyllidebau refeniw. Y nod oedd edrych ar tua 10% o ostyngiad.

Mae’r Adolygiad Gwasanaeth wedi cael ei gwblhau ac ni fydd yn newid, bydd y rheng flaen yn cael ei gadw.

Er mwyn cynyddu incwm, byddwn yn adolygu taliadau parcio yng Ngwepra.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae cyllideb y Gwasanaeth Mynediad wedi cael ei gadw, ond yn anffodus fe fydd yn rhaid i ni ystyried cynnig i leihau’r gyllideb £14,000 o £110,000.

Mae’n cael ei ystyried yn risg isel gan ein bod yn derbyn cyllid Grant Gwella Mynediad sydd wedi cael ei sicrhau am y 2 flynedd nesaf, a byddwn yn parhau i weithio i ddod o hyd i gyllid allanol ychwanegol.

JP – Da iawn am warchod y gyllideb fel y mae. Oes gennych chi bolisi adennill costau llawn ar gyfer y gwaith a wnaed yn y Gwasanaeth Mynediad, e.e. Gwyriadau ac ati?

TW - Oes ond nid yw’n gyson. Mae ffioedd yn cael eu gosod ac maent yn codi gyda chwyddiant bob blwyddyn. Gan fod pob achos yn wahanol fe fydd yn costio mwy i ni ddod o hyd i gostau cywir felly fe ddefnyddir ffioedd a osodwyd.

SJ – Rhoddodd fwy o fanylion am gostau a threuliau.

JH – Fe ddylem allu pwysleisio y bydd cyllid yn y maes yma’n helpu iechyd y cyhoedd.

HM – Mae GIG Bryste wedi cynnal astudiaeth a chanfod am bob £1 a wariwyd ar Fynediad, roedd yn arbed £17 i’r GIG.

DE – O ran ffioedd meysydd parcio Gwepra, a fydd yr incwm yn dod yn ôl mewn i’r parc?

TW – O dan y ddeddfwriaeth, dim ond meysydd penodol o’r Cyngor y gellir defnyddio refeniw o feysydd parcio arnyn nhw, un o’r rhain ydi diffyg arian, serch hynny, disgwylir y bydd y parc yn elwa o gyflwyno ffioedd.

SF – A fydd parcio ar y stryd yn broblem?

TW – Fe fydd Gorchymyn Rheoleiddio Traffig hefyd yn dod i rym er mwyn cyfyngu ar barcio ger mynedfa’r parc i reoli’r sgileffeithiau.

DE a HM – Beth am Faes Glas?

TW – Mae hynny’n fodel mwy cymhleth. Maen nhw’n feysydd parcio llai, ac maent yn cael eu defnyddio llai. Mae’r ardal yn un fwy cymunedol, ac mae’r

Ymddiriedolaeth angen incwm ar gyfer y Dyffryn felly fe fydd yn cael ei adael fel y mae.

SF – Mae yna ffi flynyddol yn Loggerheads, a fydd yna rywbeth tebyg?

TW – Bydd, i ddechrau fe fydd yn £50 am y flwyddyn i barcio yng Ngwepra yn unig, dim safleoedd eraill.

**5/ Y wybodaeth ddiweddaraf am y Gwasanaeth Mynediad**

**a. Adroddiad ar Waith Grant Gwella Mynediad Chwarter 2**

DC – Rydym wedi cael cadarnhad y byddwn yn cael cyllid am ddwy flynedd arall, ond nid oes manylion am y swm.

*Dangoswyd lluniau o welliannau, e.e. Giatiau mochyn a llwybrau pren.*

JH – Nid yw giatiau mochyn yn addas i bawb.

JP – Ia, ond maen nhw'n well na chamfa, mae yna sbectrwm eang o anableddau ac maent yn rhoi mwy o fynediad i rai.

TW – Mae'n rhaid i ni hefyd ystyried y tirfeddiannwr, y tir a'r da byw ac ati, mae yna siart llif o ystyriaethau a gafodd ei ddangos i'r grŵp o'r blaen.

JP – Dylid ei ystyried yn rhesymol ond nid yw'n orfodol.

*Trafododd y grŵp leoliadau penodol yn y lluniau.*

**b. Ystadegau Problemau Rhwydwaith Chwarter 2**

Rhoddodd SJ grynodeb o'r data. Gwella mynediad i bob math o ddefnyddiwr. Rydym ni'n gweithio ein ffordd drwy hen broblemau.

Mae'r Archwilwyr Llwybrau Troed a'u contractwyr yn gwneud gwaith gwych.

JP – Diolchodd i Swyddogion, ymdrech wych gyda chyllideb gyfyngedig.

**Cam Gweithredu – SJ i rannu crynodeb o'r data**

**6/ Adolygiad y Cadeirydd**

TW – Rydym ni hanner ffordd drwy 3 blynedd y Fforwm Mynediad Lleol, ac mae hi'n amser ystyried swydd y Cadeirydd. Nid oes yna ddiffiniad am faint y gall rhywun wasanaethu, mae un Fforwm Mynediad Lleol yn ystyried Cadeirydd fyddai'n

cylchdroi ar gyfer bob cyfarfod, mae rhai wedi cael Cadeirydd am ddegawdau. Byddai'n well gan CSFf un Cadeirydd dros y tymor er mwyn cynnal sefydlogrwydd, ond penderfyniad y Fforwm yw hynny.

JP – Fyddai o ddim yn cefnogi cylchdroi Cadeirydd ond y Fforwm ddylai benderfynu.

HM – Gofynnodd JP a fyddai'n hapus i barhau.

JP – Byddai.

SF – Pam nad oes yna lawer o aelodau yn y cyfarfod heddiw?

TW – Efallai am ei bod hi'n aeaf? Neville Howell a Sarah Hampson ydi'r unig ymddiswyddiadau. Mae gennym ni 11 aelod felly mae hynny'n iawn. Mae'n her dod o hyd i'r diwrnod iawn i gynnal y fforwm. Roedd hi'n llawn yng nghyfarfod mis Medi. Mae DC wedi gofyn i'r Undeb Ffermio am gynrychiolaeth.

DE – Byddai'n well gael Cadeirydd cyson drwy gydol y tymor ac fe hoffai JP i barhau.

SF – Cytuno.

JH – Cytuno.

*JP i barhau'n Gadeirydd y Fforwm.*

**7/ Unrhyw Fater Arall**

Gofynnodd DE am broblemau llifogydd diweddar ac a oedd yna effaith andwyol ar y rhwydwaith.

DC – Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am fanylion unrhyw broblemau sy'n deillio o'r stormydd. Yn gyffredinol mae problemau'n cynnwys coed wedi disgyn ac arwynebau'n cael eu golchi i ffwrdd.

DE – Oes gennym ni arian i sortio'r problemau yma? A oes yna restr?

**Cam Gweithredu – DC i rannu rhestr a luniwyd ar gyfer LIC**

Cododd JP bwynt am y cynnig ar gyfer Parc Cenedlaethol newydd a thynnodd sylw at sylwadau o gyfarfod Cadeiryddion Fforwm Mynediad Lleol ar y cyd yn ddiweddar - 'Dim angen am haen arall, gwanhau adnoddau prin yn bellach'. Mae'n achosi costau ychwanegol a mwy o fiwrocratiaeth.

TW – Mae CSFf wedi trafod y cynnig yn ffurfiol yn dilyn yr ymgynghoriad diweddar. Er bod y ffiniau'n cyd-fynd ag ardal AHNE ar hyn o bryd yn Sir y Fflint, nid oedd aelodau yn ei gefnogi ar y sail nad oedd yna ddigon o wybodaeth i ddylanwadu ar

agweddau  ariannol, llywodraethu a chynllunio.  Hyd nes y bydd yna fwy o fanylion, ni all CSFf ei gefnogi.

JH – Pwy awgrymodd o yn y lle cyntaf?

TW – Llywodraeth Cymru. Ym maniffesto Llafur Cymru.

JH – Roeddwn i'n meddwl y byddai'n diogelu'r amgylchedd.

TW – Mae'r dirwedd eisoes yn cael ei hamddiffyn gan AHNE.

HM – Fe ddylai'r Fforwm ei gefnogi OND ni allai digwyddiadau ymgysylltu Cyfoeth Naturiol Cymru ateb cwestiynau.  Mae yna 6 dogfen, bob un yn gannoedd o dudalennau, ond nid ydynt yn rhoi'r atebion.

JP – Roedd yna amheuaeth ymysg Cadeiryddion Fforwm Mynediad Lleol yn y cyfarfod ar y cyd.  Rhywbeth y mae angen i ni gadw llygad arno i gael y wybodaeth ddiweddaraf.

Fe awgrymodd JP y dylai fod yna rhyw fath o gyhoeddusrwydd am gael gwared ar rwystrau ffrâm-A a bod y Fforwm yn croesawu'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn a bod y Cadeirydd yn annog ei ddefnyddio ar gyfer buddion iechyd.

Fe awgrymodd TW ei bod hi'n well aros tan fod y fframiau sy'n weddill wedi cael eu tynnu ac i ganolbwyntio ar ddatganiad i'r wasg ar ddechrau'r gwanwyn i dynnu sylw at fanteision cadarnhaol mynediad i gefn gwald ac i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol.  Fe allai gyd-fynd â lansio'r llyfryn.

HM – Oes gan y Fforwm Mynediad Lleol ffordd o wneud hyn?  Nid oes gennym dudalen Facebook.

TW – Fe all fynd ar dudalen Cefn Gwlad CSFf fel datganiad i'r wasg gan y Fforwm.

JP – Cytuno, fe all fynd drwy CSFf.

SF – Fe fydd yn tynnu sylw at y ffaith fod yna Fforwm ac fe allai annog aelodau newydd i ymuno.

**Cam Gweithredu – TW i gydlynu datganiad i'r wasg yn y gwanwyn.**

Nid oedd unrhyw faterion eraill a daeth y cyfarfod i ben cyn 12pm.

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal -7 Ebrill 2025 yng Ngwepra.